# CORFFORAETH ADDYSG BELLACH COLEG GWENT

## ADRODDIAD BLYNYDDOL
## SWYDDOG LLYWODRAETHU

AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 GORFFENNAF 2023

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad hwn wedi ei lunio gan Swyddog Llywodraethu Coleg Gwent. Diben yr adroddiad yw crynhoi gweithgareddau Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Gwent (Y Bwrdd) yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2023. Mae'n rhoi sicrwydd bod y Gorfforaeth wedi bodloni ei chyfrifoldebau statudol ac wedi gweithredu o fewn y strwythur llywodraethu a osodwyd yn Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu Coleg Gwent.

1.2 Mabwysiadodd y Gorfforaeth y Cod Llywodraethu Da ar gyfer Colegau yng Nghymru (Y Cod) ym mis Hydref 2016. Mae'r Cod yn crynhoi cyfrifoldebau statudol y Bwrdd yn ogystal â'r arfer orau a argymhellir mewn perthynas â llywodraethu. Mae Bwrdd Coleg Gwent yn ceisio bodloni (a mynd y tu hwnt i, lle bynnag y bo'n bosibl) disgwyliadau'r Cod.

## 2. MONITRO PERFFORMIAD A LLYWODRAETHU

### 2.1 Dogfennau llywodraethu

2.1.1 Mae Offeryn ac Erthyglau a Rheolau Sefydlog y Gorfforaeth yn cael eu hadolygu'n gyson i sicrhau eu bod yn parhau'n unol â'r gofynion cyfreithiol presennol. Maent hefyd yn cael eu hadolygu'n fanwl bod tair blynedd. Fe'u hadolygwyd a'u cymeradwyo ddiwethaf ym mis Mai 2021. Bryd hynny cafodd y dogfennau eu hadolygu hefyd gan ymgynghorwyr cyfreithiol y Bwrdd. Ar wefan Coleg Gwent gellir dod o hyd i gopïau o'r dogfennau hyn: https://www.coleggwent.ac.uk/cy/governance

2.1.2 Cefnogir gwaith y Bwrdd gan nifer o is-bwyllgorau (gweler adran 7.2) Mae gan bob un rhaglen waith flynyddol sy'n cyd-fynd â busnes y coleg. Mae Amserlen Ddirprwyaeth wedi cael ei chymeradwyo i sicrhau cysondeb yn y broses gwneud penderfyniadau.

### 2.2 Monitro Adrodd a Pherfformio

2.2.1 Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i ragoriaeth a gwelliant parhaus yn llywodraethu'r coleg. I gynorthwyo hyn, mae is-bwyllgorau'n asesu eu perfformiad yn flynyddol ac yn cytuno ar gynllun gweithredu ar gyfer gwella. Mae pob llywodraethwr hefyd yn llenwi Holiadur Hunanasesu Blynyddol lle maent yn myfyrio ar berfformiad cyffredinol y Bwrdd ac ar eu perfformiad unigol ac anghenion datblygu.

2.2.2 Adroddir ar ddadansoddiad o'r atebion i'r Bwrdd ac yna cytunir ar Gynllun Gweithredu ar gyfer y flwyddyn. Mae'r atebion hefyd yn llywio drafftio'r Adroddiad Hunanasesu Llywodraethwr Blynyddol. Dilynir y broses hunanasesu gyda thrafodaeth wyneb yn wyneb gyda'r Cadeirydd neu Is-gadeirydd.

2.2.3 Yn 2021 gweithiodd y Bwrdd yn agos gyda'r Uwch Dîm Rheoli i ddatblygu Gweledigaeth, Cenhadaeth a Chynllun Strategol newydd ar gyfer y cyfnod hyd at 2026. Cymeradwywyd set o Strategaethau Cwricwlaidd ac Adrannol sylfaenol, ynghyd â Chynlluniau Gweithredu manwl ar gyfer pob un. Mae'r cynnydd yn erbyn y Cynlluniau Gweithredu hyn yn cael eu monitro gan is-bwyllgorau'r Bwrdd.

2.2.4 Cytunwyd ar set o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Strategol cyffredinol ac adroddir ar berfformiad yn erbyn y rhain i'r Bwrdd yn dymhorol gyda chrynodeb 'dangosfwrdd' un dudalen. Yn ei gyfarfod ym mos Gorffennaf 2023, adolygodd y Bwrdd ddrafft o Fframwaith Rheoli Perfformiad. Byd dyn yn darparu'r Bwrdd, y rheolwyr a'r staff ag eglurhad clir o sut mae perfformiad cyffredinol y coleg yn cael ei fonitro a sut mae perfformiad unigol a thîm yn cyfrannu ar gyflawni'r Amcanion Strategol.

2.2.5 Cyflawnodd adolygiad a gynhaliwyd gan Archwilwyr Mewnol y coleg i Reoli Perfformiad (TIAA Ltd.) yn ystod 2022/23 sgôr o 'Sicrwydd Sylweddol'.

2.2.6 Mae'r Pennaeth yn darparu adroddiad ym mhob cyfarfod Bwrdd yn amlinellu datblygiadau allweddol sy'n effeithio ar y coleg a'r sector AB Cymraeg ehangach. Adroddir ar Berfformiad

Ariannol a rhagolygon mewn cyfarfodydd o'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau. Yna rhennir y wybodaeth gyda'r Bwrdd llawn drwy adroddiad gan y pwyllgor. Yn yr un modd, caiff recriwtio myfyrwyr ac ansawdd ei fonitro drwy'r Pwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd sy'n darparu adroddiad i'r Bwrdd. Mae cynnydd prosiectau mawr yn cael ei fonitro gan y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau, a rhennir crynodebau 'dangosfwrdd' gyda'r Bwrdd llawn yn gyson er mwyn darparu gwybodaeth.

2.2.7 Mae'r Bwrdd yn cymryd sicrwydd mewn meysydd allweddol o gyfrifoldeb llywodraethu drwy ddiweddariadau sicrwydd cyson. Cefnogir y rhain gan adborth gan ein Llywodraethwyr Cyswllt sy'n mynychu cyfarfodydd grwpiau llywio gweithredol ar ran y Bwrdd. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod unrhyw bryderon neu faterion sy'n dod i'r amlwg yn cael eu dwyn at sylw'r Bwrdd yn brydlon.

Mae'r Llywodraethwyr Cyswllt yn ymdrin â phedwar maes allweddol ac yn ystod 2022/23 y rhain oedd:

| | |
|---|---|
| **Andrew Clark** | Llywodraethu Gwybodaeth/Seiberddiogelwch |
| **Jamie Farr** | Diogelu |
| **Bailjit Gill** | Amrywiaeth a Chynhwysiant |
| **John Phelps** | Iechyd a Diogelwch |

## 3. MYNEDIAD AT WYBODAETH

3.1 Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i fod yn agored ac yn atebol yn y modd mae'n cynnal ei fusnes. I gynorthwyo'r ymrwymiad hwn, cymeradwyodd y Bwrdd Bolisi Mynediad at Wybodaeth yn ymwneud â Busnes y Gorfforaeth. Mae'r polisi hwn yn nodi'r broses a'r meini prawf sydd i'w defnyddio pan wneir penderfyniad i ddosbarthu gwybodaeth yn Gyfrinachol.

3.2 Cynhwysir eitem Agenda ym mhob cyfarfod Bwrdd a phwyllgor i drafod dosbarthu'r eitemau a drafodir a phapurau cysylltiedig. Seilir dosbarthiad ar y meini prawf a nodir yn y polisi ac adolygir y penderfyniad ar ddosbarthiad yn achlysurol.

3.3 Mae agendâu cyfarfodydd Bwrdd ar gael ar wefan Coleg Gwent ynghyd â gwybodaeth ynghylch sut i ofyn am gopïau o bapurau cynorthwyol a Chofnodion nad ydynt yn gyfrinachol. Yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, mae Cynllun Cyhoeddi yn amlinellu'r math o wybodaeth a gedwir gan y Coleg ar gael ar dudalennau Rhyddid Gwybodaeth gwefan y coleg.

## 4. AELODAETH Y BWRDD

### 4.1 Cyfansoddiad

4.1.1 Aelodaeth y Bwrdd a bennwyd yw 22 o Lywodraethwyr, yn cynnwys:

16 Llywodraethwr Annibynnol
Y Pennaeth/Prif Weithredwr
2 Llywodraethwr Staff
2 Llywodraethwr Myfyrwyr AB
1x Llywodraethwr Myfyriwr AU

Yn ychwanegol at y Llywodraethwyr, mae tri Aelod Allanol Annibynnol yn gwasanaethu ar y Pwyllgor Archwilio i ddarparu arbenigedd a throsolwg annibynnol ychwanegol.

4.2 **Cadeirydd ac Is-gadeirydd**

4.2.1 Mae'r Gorfforaeth yn gweithredu gyda Chadeirydd ac un Is-gadeirydd. Mae pob un yn cael eu hethol gan y Bwrdd i wasanaethu am ddau dymor yn y swydd. Yn amodol ar gael ei ail-ethol, gall unigolyn wasanaethu tri thymor (cyfanswm o chwe blynedd) yn y ddwy rôl. Mae ethol y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn digwydd bob yn ail flwyddyn er mwyn cefnogi'r gwaith o gynllunio olyniaeth yn effeithiol a sicrhau parhad o fewn arweinyddiaeth.

4.2.2: Y Cadeirydd Llywodraethwyr yn ystod 2022/23 oedd Mr Mark Langshaw. Cafodd ei benodi i'r swydd am y tro cyntaf ym mis Awst 2018, a chafodd ei ail-ethol yn 2020 ac yna yn 2022 i wasanaethu hyd at fis Gorffennaf 2024.

Yr Is-gadeirydd yn ystod 2022/23 oedd Mrs Sue Ball. Etholwyd Sue i'r rôl yn gyntaf yn 2021 (i gwblhau tymor yr Is-gadeirydd blaenorol yn y swydd). Ail-etholwyd Sue ym mis Gorffennaf 2021 i wasanaethu tymor dwy flynedd lawn, ac ym mis Gorffennaf 2023 fe'i hail-etholwyd i'r rôl eto hyd at fis Gorffennaf 2025. Mae'r Pwyllgor Aelodaeth a Llywodraethu'n ystyried cynllunio olyniaeth yn gyson ar gyfer y ddwy rôl.

4.3 **Aelodaeth yn ystod 2022/23**

4.3.1 Y Llywodraethwyr a'r Aelodau Allanol a wasanaethodd ar Gorfforaeth Coleg Gwent yn ystod 2022/23 oedd:

| | | |
|---|---|---|
| Mark Langshaw MBE | Cadeirydd y Llywodraethwyr | |
| Sue Ball | Is-gadeirydd y Llywodraethwyr | |
| Guy Lacey | Pennaeth/Prif Weithredwr | |
| Anthony Basnett | Llywodraethwr | |
| Moawia Bin-Sufyan | Llywodraethwr | |
| Elizabeth Brimble | Llywodraethwr | |
| Andrew Clark | Llywodraethwr | |
| Delyth Evans | Llywodraethwr | Penodwyd ym mis Hydref 2022 |
| Jamie Farr | Llywodraethwr | |
| Rhiannon Fowler | Llywodraethwr Staff (Cefnogi Busnes) | |
| Eva Franklin | Llywodraethwr Myfyriwr (AB) | Penodwyd ym mis Chwefror 2023 |
| Chris Freegard OBE | Llywodraethwr | |
| Bailjit Gill | Llywodraethwr | |
| Johnathan Hooper | Llywodraethwr Myfyriwr (AU) | Daeth y penodiad i ben ym mis Rhagfyr 2022 |
| Claire Taylor | Llywodraethwr Myfyriwr (AU) | Penodwyd ym mis Chwefror 2023 |
| Ray Morrison | Llywodraethwr | |
| John Phelps | Llywodraethwr | |
| Matthew Preece | Llywodraethwr | |
| Wendy Rogers | Llywodraethwr Staff (Addysgu) | |
| Shannon Sheean | Llywodraethwr Myfyriwr (AU) | |
| Elizabeth Swaffield | Llywodraethwr | |
| Martin Veale | Llywodraethwr | |
| Gareth Watts | Llywodraethwr | Penodwyd ym mis Hydref 2022 (gwasanaethodd fel Aelod Allanol o'r Pwyllgor Archwilio cyn hynny) |
| Dorota Lee | Aelod Allanol o'r Pwyllgor Archwilio | |
| Rafiu Ajayi | Aelod Allanol o'r Pwyllgor Archwilio | Penodwyd ym mis Ebrill 2023 |
| Farishna Chohan-Solanki | Aelod Allanol o'r Pwyllgor Archwilio | Penodwyd ym mis Ebrill 2023 |

4.4 **Cymhwystra**

4.4.1 Mae ymgeiswyr sy'n cael eu hystyried am benodiad yn cael gwybodaeth ynghylch y meini prawf cymhwystra ar gyfer penodiadau i'r Bwrdd ac fel Ymddiriedolwr Elusennol. Mae gofyn i ymgeiswyr lofnodi datganiad yn cadarnhau eu bod nhw'n bodloni'r meini prawf dan sylw. Mae penodiad yn amodol ar gwblhau gwiriadau addasrwydd a gynhelir gan y Swyddog Llywodraethu. Mae hyn yn cynnwys gwiriadau yn erbyn y Gofrestr Cyfarwyddwyr Anghymwys a'r Gofrestr Ansolfedd. Gofynnir

i bob aelod gwblhau cais DBS Manylach hefyd. Mae aelodau'r Gorfforaeth yn llofnodi'n flynyddol i gadarnhau eu haddasrwydd parhaus i wasanaethu.

## 4.5 Cyfnod yn y Swydd

4.5.1 Ac eithrio'r Pennaeth/Prif Weithredwr a Llywodraethwyr Myfyrwyr, mae pob aelod yn cael ei benodi am dymor o dair blynedd yn y swydd. Ac eithrio mewn amgylchiadau eithriado, gall unigolyn wasanaethu uchafswm o dri thymor yn y swydd (cyfanswm o 9 mlynedd). Mae'r Bwrdd o'r farn bod tymor o'r hyd hwn yn galluogi Llywodraethwyr i ddatblygu dealltwriaeth dda o'r Coleg. Mae hefyd yn sicrhau parhad o fewn y gwaith arwain, ac yn rhoi cyfle i gyflwyno syniadau a safbwyntiau newydd a chynnal annibyniaeth..

4.5.2 Nid yw ail-benodiadau'n cael eu gwneud yn awtomatig ar ddiwedd bob tymor tair blynedd. Mae'n rhaid i Lywodraethwyr Staff gael eu hail-ethol gan eu cyfoedion, a gall Llywodraethwyr annibynnol/Aelodau Allanol wneud cais i gael eu hail-benodi. Y Bwrdd sy'n gyfrifol am y penderfyniad i ail-benodi aelod, ar argymhelliad y Pwyllgor Aelodaeth a Llywodraethu. Wrth ystyried cais ar gyfer cael eu hail-ethol mae'r pwyllgor yn adolygu cyfraniad, ymrwymiad a phresenoldeb yr aelod ynghyd ag anghenion aelodaeth presennol y bwrdd cyfan.

4.5.3 Penodir Llywodraethwr Myfyrwyr i'r swydd am dymor fel arfer. Gall hyn gael ei ymestyn os yw'r Bwrdd yn credu ei fod o fudd i'r coleg. Yn amodol ar estyniad neu gael eu hail-ethol, gall Llywodraethwyr Myfyrwyr wasanaethu hyd at gyfanswm o dair blynedd

## 4.6 Penodiadau a Recriwtio

4.6.1 Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Aelodaeth yn goruchwylio'r broses recriwtio. Mae'n tynnu rhestr fer ac yn cwrdd â phenodedigion posibl. Mae bob penodiad yn amodol ar gymeradwyaeth derfynol gan y Bwrdd, ar argymhelliad y pwyllgor.

4.6.2 Cynhelir recriwtio aelodau annibynnol drwy ystod o ddulliau dan
arweiniad y Pwyllgor Aelodaeth a Llywodraethu. Mae'r broses recriwtio yn cael ei lywio gan adolygu rheolaidd o broffil sgiliau'r Bwrdd. Y flaenoriaeth yw sicrhau bod gan y Bwrdd yr ystod gywir o sgiliau ac arbenigedd sydd ei angen i gynnal ei gyfrifoldebau'n effeithiol. Mae'r Bwrdd hefyd yn cydnabod y gwerth gall aelodaeth amrywiol ei gael ar ei waith a'r broses gwneud penderfyniadau ac mae wedi gwneud nifer o ymrwymiadau ar amrywiaeth ei aelodau (gweler adran 5.2)

4.6.3 Caiff y Llywodraethwyr Staff a'r Llywodraethwyr Myfyrwyr eu hethol gan eu cyfoedion. Byddant hefyd yn cwrdd â'r pwyllgor cyn i'r Bwrdd gymeradwyo eu penodiad yn derfynol.

## 4.7 Cynefino a Datblygu

4.7.1 Mae gan aelodau newydd yr hawl i Becyn Cynefino electroneg. Mae hyn yn cynnwys
copïau o ddogfennau llywodraethu allweddol yn cynnwys:

- Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu Coleg Gwent
- Rheolau Sefydlog y Gorfforaeth
- Y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Cholegau Addysg Bellach.
- Y Cod Llywodraethu Da
- Canllaw Diogelu Llywodraeth Cymru
- Yr Ymddiriedolwr Hanfodol - Canllaw y Comisiwn Elusennol

Ceir hefyd wybodaeth am dîm rheoli'r coleg a chopïau o'r
Cynllun Strategol a Strategaethau Cwricwlaidd ac Adrannol cyffredinol. Gellir cynnig y wybodaeth hon mewn fformatau eraill neu yn Saesneg fel bo'r angen.

4.7.2 Mae aelodau newydd yn ymgymryd â phroses gynefino sy'n cynnwys cyfarfodydd cychwynnol gyda'r Swyddog Llywodraethu,
Y Cadeirydd, Pennaeth/Prif Weithredwr ac Is-benaethiaid. Mae'r cyfarfodydd hyn yn darparu trosolwg o sut mae'r Bwrdd yn gweithredu, strwythur y coleg a'r
Weledigaeth a'r Genhadaeth strategol. Anogir yr holl Lywodraethwyr hefyd i gymryd y cyfle i ymweld â phob campws ac i fynychu digwyddiadau ledled y coleg drwy gydol y flwyddyn.

4.7.3 Mae gan yr holl aelodau'r hawl i'r Swyddog ac ystod o gyfnod ac arweiniad
sydd ar gael drwy'r sianel Timau'r Gorfforaeth. Maent yn cwblhau modiwlau hyfforddiant gorfodol mewn Diogelu, Dyletswydd i Atal ac Amrywiaeth a Chydraddoldeb a
dylent gymryd rhan mewn cyfleoedd hyfforddiant drwy gydol y flwyddyn. Yn ystod 2022-23, ymgysylltodd Llywodraethwyr
â sesiynau datblygu ar Gymeriad Addysgol Coleg Gwent a Seibrddiogelwch. Cymerodd y Llywodraethwyr ran hefyd mewn briffio ar-lein gan swyddogion Lywodraeth Cymru ar weithredu'r Comisiwn ar gyfer Addysg Drydyddol ac Ymchwil.

4.7.4 Mynychodd Llywodraethwyr ddwy Seminar Strategaeth ym mois Hydref 2022 a mis Mawrth 2023. Darparodd y seminarau hyn gyfle i drafod cynllunio ariannol strategol, prosiectau cyfalaf allweddol a blaenoriaethau'r dyfodol gyda'r uwch dîm rheoli llawn.

4.7.5 Er mwyn datblygu eu dealltwriaeth o'r coleg, anogir Llywodraethwyr i ymgysylltu â diswyddiadau ehangach y coleg. Yn ystod 2022/23 mynychodd Llywodraethwyr:

- Ddigwyddiad gwybodaeth ar gyfer staff Awdurdod Addysg Lleol ar Anghenion Dysgu Ychwanegol.
- Brecwast Ymgysylltu â Chyflogwyr
- Arddangosfa Gelf a Ffotograffiaeth
- Dathliadau Canlyniadau Worldskills
- Digwyddiadau 'Dod o Hyd i Brentisiaethau'
- Ail-lansiad Salon Trin Gwallt a Harddwch y coleg
- Perfformiadau drama a cherddoriaeth
- Drag Queen Story Hour (i ddathlu mis Pride)
- Rownd Derfynol 'CG's Got Talent'
- Gwobrau Dysgwyr a Phrentisiaethau
- Seremoni Raddio a Gwobrau AU
- Noson staff yn 'Dathlu Rhagoriaeth'

## 4.8 Treuliau

4.8.1 Mae aelodau'r Gorfforaeth a'i phwyllgorau yn gwasanaethu ar sail wirfoddol, ddi-dâl. Gall aelodau hawlio costau teithio neu gynhaliaeth resymol sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'u swydd. Yn ymarferol, mae treuliau sy'n cael eu hawlio'n ymwneud â chostau teithio yn bennaf. Mae costau yn cael eu hawlio drwy borth Adnoddau Dynol hunanwasanaeth y coleg, ac yn cael eu gwirio a'u cymeradwyo gan y Swyddog Llywodraethu. Os yw'r Cadeirydd yn cyflwyno hawliad, caiff hwn ei wirio a'i gymeradwyo gan y Swyddog Llywodraethu a'r Is-gadeirydd (Adnoddau a Chynllunio) neu'r Pennaeth/Prif Weithredwr.

Yn ystod y flwyddyn hyd at 31 o fis Gorffennaf 2023, hawliwyd cyfanswm o **£485.70**.

## 5. AMRYWIAETH O FEWN Y BWRDD

### 5.1 Cyfrifoldebau

5.1.1 Mae'r Bwrdd yn cydnabod pwysigrwydd ei rôl yn arwain y coleg i ddod yn gymuned fwy amrywiol a chynhwysol. Mae'r Bwrdd yn credu y dylai arwain drwy esiampl ac mae wedi ymrwymo i ymgorffori ystyriaethau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i bopeth mae'n ei wneud. Mae wedi ymrwymo hefyd i gael aelodaeth fwy amrywiol sy'n adlewyrchu'r ystod o gymunedau gwahanol a wasanaethir gan y coleg.

5.1.2 Mae'r Llywodraethwr Cyswllt ar gyfer Amrywiaeth a Chynhwysiant yn mynychu cyfarfodydd y Grŵp Llywio Cydraddoldeb, amrywiaeth a Chynhwysiant, ynghyd â'r Swyddog Llywodraethu (sy'n gadeirydd y Grŵp Cyswllt Staff 'Abl')

### 5.2 Cynllun Gweithredu a Datganiad Amrywiaeth y Bwrdd

5.2.1 Yn ystod 2022/23, datblygodd y Bwrdd Ddatganiad Amrywiaeth y Bwrdd Mae'r datganiad yn nodi ymrwymiadau'r Bwrdd, ynghyd â thargedau'n ymwneud ag amrywiaeth aelodau'r Bwrdd. Bydd Datganiad Amrywiaeth a thargedau'n cael eu hadolygu bob blwyddyn.

5.2.2 Mae'r Bwrdd wedi datblygu Cynllun Gweithredu Amrywiaeth yn seiliedig ar yr ymrwymiadau yn y Datganiad Amrywiaeth. Mae hwn yn nodi wyth Cam Allweddol:

- Ymgorffori amrywiaeth ac arfer cynhwysol yn arfer y Bwrdd wrth wneud penderfyniadau ac ar draws ei holl waith.
- Datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gyffredinol Aelodau o faterion amrywiaeth.
- Sicrhau bod proses recriwtio'r Bwrdd yn cynorthwyo'r ymrwymiadau a nodir yn Natganiad Amrywiaeth y Bwrdd.
- Datblygu rhwydwaith ehangach o gysylltiadau (yn unigolion a sefydliadau) i gynorthwyo proses recriwtio fwy amrywiol.
- Cofnodi data amrywiaeth y Bwrdd fel ei fod yn cyd-fynd yn well â'r hyn a gedwir gan yr Adran AD ar staff y coleg.
- Monitro cynnydd (drwy'r Pwyllgor Aelodaeth a Llywodraethu) yn erbyn yr ymrwymiadau a nodir yn Natganiad Amrywiaeth y Bwrdd.
- Cyhoeddi Datganiad Amrywiaeth y Bwrdd a data ynghylch amrywiaeth y Bwrdd ar wefan y coleg.
- Adolygu a diweddaru Datganiad Amrywiaeth y Bwrdd yn flynyddol.

5.2.3 Mae cyflawniadau a gweithredoedd hyd yn hyn yn cynnwys:

- Daeth staff a Llywodraethwyr Coleg Gwent y cyntaf yng Nghymru i gwblhau'r hyfforddiant Gwrth-hiliaeth a hwyluswyd gan Race Council Cymru. Roedd yr hyfforddiant hwn yn cyd-fynd â gwaith arloesol Llywodraeth Cymru ar greu Cymru Gwrth-hiliaeth.
- Adolygwyd a diweddarwyd prosesau recriwtio'r Bwrdd. Mae dull newydd, mwy cynhwysol wedi cynorthwyo i ddenu ystod ehangach o ymgeiswyr yn barod.
- Adolygir a diweddarir polisïau'r Bwrdd i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r ymrwymiad i amrywiaeth a chynhwysiant. Mae'r Polisi Aelodaeth ac Olyniaeth yn amlinellu arferion cynhwysol penodol mewn perthynas â recriwtio, ail-benodi, cynefino a datblygu.
- Gofynnodd y Bwrdd i bapurau a gyflwynir gan y rheolwyr i gynnwys asesiad o'r effaith ar grwpiau gwarchodedig. Gofynnwyd hefyd am ddadansoddiad pellach o ddata gan nodweddion gwarchodedig, er enghraifft, mewn perthynas â digwyddiadau Diogelu.
- Ymunodd Llywodraethwyr (yn cynnwys y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd) â Mrs Gill (Llywodraethwr Cyswllt) yn y cyfarfod fis Gorffennaf 2023 o Grŵp Llywio Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Coleg. Rhannodd y Cadeirydd Ddatganiad Amrywiaeth y Bwrdd â'r grŵp a chymerodd y Llywodraethwyr ran mewn trafodaeth ddiddorol ar ystod o faterion yn cynnwys yr hyfforddiant Gwrth-hiliaeth a symudedd cymdeithasol.
- Mynychodd rhai Llywodraethwyr ymweliad gan ‘Drag Queen Story Hour’ yn llyfrgell Campws Crosskeys yn ystod mis Pride.

- Mae'r Swyddog Llywodraethu'n parhau i weithio gyda Rheolwr Amrywiaeth, Cynhwysiant a Llesiant y coleg i ddatblygu cysylltiadau gydag ystod eang o gymunedau ac i nodi cyfleoedd i Lywodraethwyr ymgysylltu â digwyddiadau sy'n ymwneud â Chydraddoldeb, Amrywiaeth na Chynhwysiant yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

## 5.3 Amrywiaeth data o fewn y Bwrdd


5.3.1 Mae'r Pwyllgor Aelodaeth a Llywodraethu'n adolygu a chynghori ar broffiliau sgiliau ac amrywiaeth y Bwrdd yn gyson. Roedd y Bwrdd yn falch o nodi yn y cyfarfod ym mis Gorffennaf 2023, bod aelodaeth y Bwrdd yn parhau i ddod yn fwy amrywiol ers 2017.


Mae gwaith yn parhau i wella'r data a gesglir ar amrywiaeth y Bwrdd a'r bwriad yw adrodd yn glir ar amrywiaeth y Bwrdd ar wefan y coleg yn y dyfodol.

**Amrywiaeth y Bwrdd yn ystod 2022/23 (yn cynnwys 3 Aelod Allanol o'r Pwyllgor Archwilio)**

**RHYWEDD**

Ein hymrwymiad - i gynnal rhaniad rhwng y rhywiau sy'n cynnwys cydbwysedd da o ddynion a
5.3.2 merched, yn ogystal ag aelodau sy'n uniaethu fel anneuaidd neu drawsryweddol.









**ETHNIGRWYDD**

Ein hymrwymiad - I gael aelodaeth sy'n adlewyrchu amrywiaeth ethnig ein cymunedau ac yn cynnwys isafswm o bum aelod sydd o gefndir Du, Asiaidd neu Leiafrif Ethnig.

Yn ystod 2017/18 roedd aelodaeth y Bwrdd yn 92% Gwyn Prydeinig ac 8% Asiaidd (o Afghanistan). Yn ystod 2022/23 roedd proffil ethnigrwydd y Bwrdd yn:







**RHYWIOLDEB**


Ein hymrwymiad - Cynyddu'r nifer o aelodau o'r gymuned LHDTC+

Dim ond ers 2021/22 mae'r data hwn wedi ei gasglu.





**ANABLEDD**


Ein hymrwymiad - Cynyddu'r nifer o aelodau sydd ag anabledd




**YR IAITH GYMRAEG**

Ein hymrwymiad - Cael isafswm o bedwar aelod sy'n siarad Cymraeg yn rhugl neu sy'n ddysgwyr lefel uwch





**Oedran**

Nid yw'r Bwrdd wedi gwneud ymrwymiad penodol mewn perthynas ag oedran. Fodd bynnag, mae'n cydnabod bod ystod eang o wahanol oedran yn sicrhau cydbwysedd rhwng persbectif a phrofiad.

Yn 2023, oedran cyfartalog ein haelodau oedd **51 oed.**




## 6. GWRTHDARO BUDDIANNAU

### 6.1 Cofrestr o Fuddiannau

6.1.1 Ar ôl cael eu penodi, a phob blwyddyn wedi hynny, mae'r holl aelodau'n Arwyddo Cod Ymddygiad, Gwerthoedd ac Ymddygiadau'r Gorfforaeth. Mae hwn yn cynnwys cyfeiriad penodol at yr angen i osgoi gwrthdaro buddiannau lle bo modd. Mae Llywodraethwyr hefyd yn cwblhau Datganiad Buddiannau bob blwyddyn. Mae hwn yn rhestru'r holl fuddiannau sydd ganddynt hwy (neu aelod agos o'r teulu) a allai
beri gwrthdaro wrth arfer eu beirniadaeth annibynnol (neu a all ymddangos i wneud hynny) wrth ymgymryd â'u cyfrifoldebau fel Llywodraethwr neu Aelod Allanol. Y Swyddog Llywodraethu sy'n cynnal Cofrestr Buddiannau'r Aelodau.

6.1.2 Mae eitem agenda yn cael ei chynnwys ym mhob cyfarfod Bwrdd a phwyllgor sy'n galluogi aelodau i ddatgan unrhyw fuddiant mewn perthynas ag eitemau a phynciau trafod penodol. Cofnodir yr holl fuddiannau sy'n cael eu datgan, ynghyd ag unrhyw gamau a gymerwyd, yn y cofnodion yn ogystal â mewn atodiad ar wahân i'r Gofrestr Buddiannau.

6.1.3 **Cofrestr Buddiannau'r Aelodau yn ystod 2022-23:**

| Enw | Manylion y buddiant | Dyddiad y datgelwyd y buddiant | Dyddiad diweddaru'r Gofrestr |
|---|---|---|---|
| Sue Ball | Cyn-weithiwr - Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan: Cyfarwyddwr Cynorthwyol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol (wedi Ymddeol 01/08/21 ond yn parhau i wneud gwaith ymgynghorol)<br>Aelod o Gyngor Eglwys y Plwyf, Eglwys Sant Marc, Casnewydd<br>Cyngor Nyrsio a Bydwragedd (Rheoleiddiwr) yn gweithredu fel Cadeirydd Addasrwydd i Ymarfer mewn gwrandawiadau | 01.08.21<br>26.03.18<br>17.11.22 | 01.12.21<br>23.04.18<br>24.11.22 |
| Anthony Basnett | Cyflogai – VMWARE o 17.06.19<br>Cyn-weithiwr, Cisco International Ltd. (wedi dod i ben 16.06.19)<br>Gwraig – gweithio i Goleg Gwent | 21.05.19<br>17.01.18<br>17.01.18 | 22.05.19<br>22.05.19<br>19.01.18 |
| Moawia Bin-Sufyan | Cyflogaeth â thâl - Cyfarwyddwr Buddsoddiadau, Governor Investments Ltd | 05.01.22 | 10.01.22 |
| | Cyflogaeth â thâl - Cyd-gysylltydd Rhanbarthol, Care After Combat | 05.01.22 | 10.01.22 |
| | Cyfarwyddwr Anweithredol - Tai Hendre/Hafod | 05.01.22 | 10.01.22 |
| | Aelod Allanol - Awdurdod Heddlu Dinas Llundain | 05.01.22 | 10.01.22 |
| | Uwch Aelod Panel Annibynnol - Llywodraeth Cymru (yn cynnwys paneli ar gyfer penodi Cadeirydd y Comisiwn ar | 05.01.22 | 10.01.22 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gyfer Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CTER) a Chadeirydd y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesiadau) | | |
| | Goruchwyliwr Lleyg - Gweinyddiaeth Gyfiawnder (PeCS) Gwasanaeth yn y Ddalfa a Hebrwng Carcharor | 05.01.22 | 10.01.22 |
| | Aelod o'r Bwrdd - Bwrdd Monitro Annibynnol, CEF Parc | 05.01.22 | 10.01.22 |
| | Aelod - Cyngor Iechyd Cymuned De Morgannwg | 05.01.22 | 10.01.22 |
| | Aelod o'r Cyngor a Thrysorydd - Cyngor Sant Ioan Caerdydd a Bro Morgannwg | 05.01.22 | 10.01.22 |
| | Gwirfoddolwr Brechu - Ambiwlans Sant Ioan Cymru. | 05.01.22 | 10.01.22 |
| | Aelod o'r Panel - Panel Amrywiaeth ITV Cymru | 05.01.22 | 10.01.22 |
| | Aelod o'r Bwrdd Gweithredol - Cymdeithas y Cenhedloedd Unedig - Cangen Caerdydd a'r Fro | 05.01.22 | 10.01.22 |
| | Cadeirydd - Bro Ddiogelwch - Grŵp Ymgynghorol Cysylltiadau Hîl Cymunedol | 05.01.22 | 10.01.22 |
| | Llywodraethwr AALl - Ysgol Gynradd Oak Field ac Ysgol \gynradd Llandaf | 05.01.22 | 10.01.22 |
| | Ynad (Ynad Heddwch\|) -Canol, De Morgannwg a Gwent | 05.01.22 | 10.01.22 |
| | Aelod - Bro Morgannwg SACRE | 05.01.22 | 10.01.22 |
| | Liveryman – y Worshipful Company of Educators | | |
| | Freeman –y Worshipful Company of Spectacle Makers | 05.01.22 | 10.01.22 |
| | Aelod - Urdd Rhyddfreinwyr Dinas Llundain | 05.01.22 | 10.01.22 |
| Elizabeth Brimble | Cyn-gyfarwyddwr Cymwysterau, Cofrestru ac Addasrwydd i Ymarfer, Cyngor y Gweithlu Addysg (wedi ymddeol fis Awst 2023) | 29.05.19 | 31.08.23 |
| Andrew Clark | Merch sy'n cael ei chyflogi gan goleg Addysg Bellach arall yng Nghymru<br>Aelod Cyfetholedig o'r Pwyllgor Archwilio a Risg o fewn y Bwrdd Arholi AQA (daeth i ben 31.03.22)<br>Cyn-weithiwr, Llywodraeth Cymru (wedi ymddeol 31.01.21)<br>Aelod Annibynnol y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd, Archwilio Cymru (o 01.07.21)<br>Cymrawd Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr (ICAEW)<br>Aelod Bwrdd, CCDG Ltd. (yn masnachu fel Gyrfa Cymru (o 01.08.21)<br>Cyfarwyddwr ac Ysgrifennydd y Cwmni, Maple (140) Ltd, | 01.03.21<br>25.10.22<br>01.03.21<br>20.07.21<br>06.12.21<br>01.08.21<br>25.04.23 | 15.03.21<br>24.11.22<br>15.03.21<br>22.07.21<br>03.01.22<br>09.12.21<br>25.04.23 |
| Delyth Evans<br>**Penodwyd 10.10.22** | Aelod Bwrdd, Chwaraeon Cymru<br>Ymddiriedolwr, Sefydliad The Foyle | 11.11.22<br>11.11.22 | 24.11.22<br>24.11.22 |
| Jamie Farr | Perchennog/Cyfarwyddwr YourNorth Ltd a Sylfaenydd/Cyfarwyddwr YourNorth Veterans - Cwmni Buddiant Cymunedol | 12.03.21 | 12.03.21 |
| Eva Franklin<br>**Penodwyd 01.02.23** | Myfyriwr, Coleg Gwent<br>Uwch Gadet, Heddlu Gwent<br>Cyflogaeth Rhan Amser - Sinema Maxime, Coed-duon | 03.03.23<br>03.03.23<br>03.03.23 | 20.03.23<br>20.03.23<br>20.03.23 |
| Christopher Freegard | Dirprwy Raglaw Gwent<br>Cyn-lywodraethwyr, Prifysgol De Cymru (wedi dod i ben 31 Gorffennaf 2020) | 12.01.20<br>31.07.20 | 07.02.20<br>31.07.20 |
| Rhiannon Fowler | Gweithiwr, Coleg Gwent<br>Gŵr - Llywodraethwr Ysgol Gynradd Gymunedol Llantarnam | 12.01.22<br>12.01.22 | 12.01.22<br>12.01.22 |
| Bailjit Gill | Cyflogaeth - Uwch Reolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, Tŷ'r Cwmnïau | 01.06.22 | 22.06.22 |
| Johnathan Hooper<br>**Wedi ymddeol 31.12.22** | Myfyriwr, Coleg Gwent | 24.01.22 | 25.01.22 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Guy Lacey<br>**(Pennaeth/Prif Weithredwr)** | Cyn-lywodraethwr, Ysgol Gyfun y Coed Duon, Caerffili (daeth i ben fis Medi 2022)<br>Ymgynghorydd, Y PRENTIS (partneriaeth rhwng Cartrefi Melin a Chyngor Sir Fynwy)<br>Cyfarwyddwr/ Cadeirydd, Colegau Cymru<br>Cyfarwyddwr, Fforwm Services Ltd. (is-gwmni dan berchnogaeth lawn Colegau Cymru)<br>Dirprwy Raglaw Gwent | 08.10.15<br>08.10.15<br>17.04.18<br>01.09.18<br>25.11.21 | 08.10.15<br>08.10.15<br>17.04.18<br>01.01.19<br>25.11.21 |
| Mark Langshaw<br>**(Cadeirydd)** | Cyfarwyddwr Continental Teves (Cyflogaeth). Mae'r cwmni yn gwsmer hyfforddi ar gyfer y Coleg ac yn cyflogi prentisiaid sy'n mynychu'r Coleg. | 09.11.16 | 10.11.16 |
| | Cadeirydd, Prosiect Effaith Blaenau Gwent, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (di-dâl) | 09.11.16 | 09.11.16 |
| | Cadeirydd Bwrdd Menter Blaenau Gwent (di-dâl) | 09.09.18 | 09.09.18 |
| | Cadeirydd Bwrdd Cynghori Strategol, y Cymoedd Technoleg (di-dâl) | 09.09.18 | 09.09.18 |
| | Cyfarwyddwr, Fforwm Modurol Cymru (di-dâl)<br>Cyfarwyddwr, Fforwm Modurol Cymru (di-dâl) | 09.11.16<br>28.06.21 | 09.11.16<br>28.06.21 |
| Claire Lloyd<br>**Penodwyd 01.02.23** | Myfyriwr, Coleg Gwent<br>Hunangyflogedig - Therapi Tylino ym maes Chwaraeon St Woolos<br>Cyflogaeth rhan amser: TATA Steel | 15.03.23<br>15.03.23<br>15.03.23 | 20.03.23<br>20.03.23<br>20.03.23 |
| Ray Morrison | Cydberchennog a chyd-gyfarwyddwr, Bowmor Ltd. yn masnachu fel Bluebird Care Casnewydd (darparwr gofal cartref ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol i oedolion) | 09.08.18 | 09.08.18 |
| | Gwirfoddolwr (Hyrwyddwr Cyfeillion Dementia), y Gymdeithas Alzheimers | 09.08.18 | 09.08.18 |
| | Aelod, Grŵp Gweithredu Dinas Ystyriol o Ddementia Cyngor Dinas Casnewydd | 09.08.18 | 09.08.18 |
| | Aelod, Fforwm Darparwyr Partneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Gwent Fwyaf | 09.08.18 | 09.08.18 |
| | Aelod, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Grŵp Cyswllt Gweithredol Gofal Cartref | 09.08.18 | 09.08.18 |
| John Phelps | Ymgynghorydd Addysg a Hyfforddiant Addysg Bellach hunangyflogedig | 29.05.19 | 10.06.19 |
| Matthew Preece | Hunangyflogedig - Business Doctor, (ymgynghoriaeth taledig i fusnesau ledled Gwent. Cleientiaid yn cynnwys cwmni sy'n darparu gwasanaethau diogelwch i'r coleg.)<br>Is-lywydd BNI Celtic - grŵp rhwydweithio atgyfeirio yng Nghasnewydd<br>Gwraig - Cyfarwyddwr Ariannol, Aviva | 16.01.20<br>16.01.20<br>16.01.20 | 26.01.20<br>26.01.20<br>26.01.20 |
| Wendy Rogers | Aelod staff, Coleg Gwent<br>Is-gadeirydd, Undeb Prifysgolion a Cholegau, Coleg Gwent<br>Cadeirydd, Undeb Prifysgolion a Cholegau, Campws Crosskeys | 10.08.18<br>10.08.18<br>10.08.19 | 10.08.18<br>10.08.18<br>10.08.19 |
| Shannon Sheean<br>**Wedi ymddeol 31.07.23** | Myfyriwr, Coleg Gwent | 01.04.22 | 04.04.22 |
| Lizzie Swaffield | Gweithiwr Sefydliad Education Endowment<br>Cyn-weithiwr - Cymwysterau Cymru (Rheolwr Cymwysterau) wedi dod i ben mis Awst 2020<br>Cyfranddaliwr, Swaffield Ltd (Busnes gwasanaethau peirianneg)<br>Gŵr - perchennog Swaffield Ltd<br>Aelod, Sefydliad Corfforedig Elusennol Pafiliwn Grange (Prosiect trosglwyddo ased cymunedol lleol mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd) | 28.09.20<br>02.10.20<br>20.06.17<br>20.06.17<br>19.07.18 | 02.10.20<br>02.10.20<br>31.07.17<br>31.07.17<br>19.07.18 |
| Martin Veale | Aelod Annibynnol a Chadeirydd Pwyllgor Archwilio, Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre. (Taledig) ac Ymddiriedolwr Elusen Codi Arian Felindre | 15.03.16 | 16.03.16 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Aelod Bwrdd a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg, Chwaraeon Cymru | 01.09.18 | 05.09.18 |
| | Cyfarwyddwr, Cwmni Buddiannau Cymunedol Datblygiad Fferm Wynt Pen y Cymoedd Penodwyd yn Gadeirydd 01.10.22 | 25.10.22 | 24.11.22 |
| | Aelod Lleyg Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, Cyngor Sir Penfro | 06.09.19 | 15.11.19 |
| | Aelod Lleyg a Chadeirydd Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | 11.04.19 | 21.06.22 |
| | Aelod Lleyg y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | 07.01.21 | 25.01.21 |
| | Aelod Lleyg Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, Cyngor Bwrdeistref Sirol Mynwy | 09.06.22 | 22.06.22 |
| | Aelod o Bwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, Cyfarwyddiaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru | 20.01.20 | 27.01.20 |
| | Aelod, Pwyllgor Archwilio, Cyfarwyddiaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru | 22.06.22 | 22.06.22 |
| | Aelod Lleyg o'r Pwyllgor Archwilio a Risg, Cymdeithas Tai Hafod, Caerdydd | 07.01.21 | 25.01.21 |
| | Aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio (yn adrodd i Brif Gwnstabl a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu dros Dde Cymru) (o fis Mai 2021) | 10.05.21 | 11.05.21 |
| | Aelod Lleyg y Pwyllgor Safonau, Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Dwyrain Cymru (o fis Ebrill 2021) | 10.05.21 | 11.05.21 |
| | Aelod Lleyg, Pwyllgor Safonau Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | 22.06.22 | 22.06.22 |
| | Aelod Lleyg ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Safonau, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog | 22.06.22 | 22.06.22 |
| | Llywodraethwr, Ysgol Uwchradd Hawthorn (di-dâl) | 20.01.20 | 27.01.20 |
| | Llywodraethwr, Ysgol 3-16 Newydd, Hawthorn, Pontypridd | 22.06.22 | 22.06.22 |
| | Ynad Heddwch, Mainc Canolbarth Cymru, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF | 12.09.16 | 03.11.16 |
| | Aelod Lleyg, Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, CBS Rhondda Cynon Taf | 22.06.22 | 22.06.22 |
| | Aelod o'r Pwyllgor Archwilio, ACAS (â thâl)<br>(o 01.03.23) | 13.02.22 | 24.02.22 |
| Gareth Watts<br>**Penodwyd yn Llywodraethwr 10.10.22 (Cyn-aelod Allanol o'r Pwyllgor Archwilio)** | Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol ac Ysgrifennydd y Bwrdd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (Cyflogaeth yn dechrau 01.08.23)<br>Pennaeth Llywodraethu a Sicrwydd, Senedd Cymru (Cyflogaeth yn dod i ben 31.07.23)<br>Aelod Corff Llywodraethu, Ysgol Meadowbank, Caerdydd<br>Aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio - Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer Gwent a Heddlu Gwent<br>Cyn-aelod Allanol Annibynnol o Bwyllgor Archwilio Coleg Gwent | 12.07.23<br>20.10.15<br>17.10.17<br>01.10.22<br>10.10.22 | 13.07.23<br>25.10.15<br>08.11.17<br>26.01.23<br>24.11.22 |
| Dorota Lee<br>**(Aelod Allanol)** | Gweithiwr, Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon/BDUK: Arweinydd Sicrhau Portffolio<br>Cyn-weithiwr, Swyddfa Myfyrwyr (daeth i ben mis Tachwedd 2021)<br>Aelod o'r Bwrdd Monitro Annibynnol, CEF Brynbuga (gwirfoddol)<br>Ynad Heddwch, Llys Oedolion a Theuluoedd, Mainc Gwent | 04.01.21<br>04.01.21<br>23.06.21<br>23.06.21 | 05.01.21<br>05.01.21<br>01.07.21<br>01.07.21 |
| Farishna Chohan-Solanki<br>**(Aelod Allanol)<br>Penodwyd 01.04.23** | Gweithiwr, Legal & General<br>Cyfarwyddwr a Rhanddeiliad, Podmed Podiatry | 03.05.23<br>03.05.23 | 10.05.23<br>10.05.23 |
| Rafiu Ajayi<br>**(Aelod Allanol)<br>Penodwyd 01.04.23** | Cyn-weithiwr, Leadway Assurance (daeth i ben fis Ebrill 2023) | 28.04.23 | 28.04.23 |

6.2 **Cytundebau ar gyfer cyflenwi nwyddau a gwasanaethau**

6.2.1 Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2023, ni roddodd Coleg Gwent gytundeb ar gyfer nwyddau neu wasanaethau
i unrhyw aelod pwyllgor neu Gorfforaethol, nac i unrhyw sefydliad
y mae aelod yn uniongyrchol gysylltiedig ag ef, oni bai er mwyn mynd ar drywydd ei fusnes cydnabyddedig o ddarparu addysg a hyfforddiant er budd y gymuned leol.

## 7. GWEITHGAREDD Y GORFFORAETH

### 7.1 Cyfarfodydd bwrdd

7.1.1 Mae cyfarfodydd o'r Bwrdd a'i bwyllgorau; fel arfer yn cael eu cynnal ar un o safleoedd campws y coleg. Mae cyfleusterau ar gyfer cyfarfodydd hydrid hefyd ar gael.

7.1.2 Yn 2022/23, cyfarfu'r pwyllgor bedair gwaith ar:
13 Rhagfyr 2022
28 Mawrth 2023
25 Mai 2023
11 Gorffennaf 2023

7.1.3 Y cworwm cytunedig ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau yw 50% o aelodau cymwys yn bresennol. Roedd gan bob cyfarfod Bwrdd yn ystod y flwyddyn gworwm.

7.1.4 Yn unol â Rheoliadau Ariannol y Coleg mae'r Bwrdd yn cymeradwyo gwariant cyfalaf o dros £250,000. Yn ystod 2022/23 ni chymeradwyodd y Bwrdd unrhyw wariant cyfalaf penodol. Cymeradwywyd gwariant y gyllideb cyfalaf 2023/24 o flaen llaw i alluogi prosiectau allweddol gael eu cwblhau dros gyfnod yr haf mewn pryd ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd.

### 7.2 Pwyllgorau

7.2.1 Cefnogir gwaith y Bwrdd gan nifer o is-bwyllgorau. Mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo'r Cylch Gorchwyl ar gyfer pob un o'r rhain. Mae gan y pwyllgorau gynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn hefyd. Mae strwythur y pwyllgorau'n galluogi adolygiad a thrafodaeth ddyfnach ynghylch meysydd penodol ac mae'n cynorthwyo Llywodraethwyr i ddatblygu dealltwriaeth fanylach o agweddau penodol o'r coleg.

7.2.2 Mae pob pwyllgor yn cyflwyno adroddiad am ei weithgareddau i'r Bwrdd. Mae hyn yn cynnwys eitemau i'w huwch gyfeirio neu sydd angen gwneud penderfyniad yn eu cylch, ac eitemau ar gyfer sicrwydd neu wybodaeth. Darperir copïau ychwanegol o gofnodion a dogfennau allweddol hefyd.

7.2.3 Y pwyllgorau yw:

| | |
|---|---|
| Pwyllgor Archwilio | Cadeirydd - Martin Veale |
| Pwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd | Cadeirydd - Lizzie Swaffield |
| Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau | Cadeirydd - Anthony Basnett |
| Pwyllgor Llywodraethu ac Aelodaeth | Cadeirydd - Sue Ball |
| Pwyllgor Cydnabyddiaeth | Cadeirydd - Mark Langshaw MBE |

7.3 **Pwyllgor Archwilio**

7.3.1 Mae'r Pwyllgor Archwilio'n gweithredu o fewn gofynion y polisi hwn. Cod Ymarfer Archwilio AU Llywodraeth Cymru (ACOP) a cyn cynnwys pedwar Llywodraethwr ychwanegol Aelodau Allanol ychwanegol (tri ar hyn o bryd). Mae gan sawl aelod brofiad arbenigol o archwilio, cyfrifeg neu lywodraethu.

7.3.2 Nid yw aelodaeth y pwyllgor yn cynnwys Cadeirydd y Gorfforaeth na'r Pennaeth/Prif Weithredwr na'r Llywodraethwyr Staff a Myfyrwyr chwaith. Ni all yr un aelod o'r Pwyllgor Archwilio wasanaethu ar y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau chwaith.

7.3.3 Mae'r Pennaeth a'r Is-bennaeth (Adnoddau a Chynllunio) yn mynychu'r holl gyfarfodydd y pwyllgor ynghyd â'r Cyfarwyddwr Cyllid. Gwahoddir aelodau eraill o'r Uwch Dîm Rheoli i fynychu fel bo'r angen, i gynorthwyo trafodaethau penodol.

7.3.4 Mae cynrychiolwyr o wasanaeth Archwilio Mewnol y coleg (TIAA Ltd.) a'r Archwilwyr Allanol (PwC) yn mynychu pob cyfarfod. Mae'r pwyllgor yn cynnal trafodaethau cyfrinachol gyda'r ddau gynrychiolydd bob blwyddyn. Caiff holl staff y coleg (yn cynnwys y Swyddog Llywodraethu a'r Pennaeth) eu hallgáu o'r trafodaethau hyn.

7.3.5 Yn 2022/23, cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio bedair gwaith ar:

29 Tachwedd 2022
7 Chwefror 2023
9 Mai 2023
4 Gorffennaf 2023

Roedd cworwm ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio.

7.3.6 Ar ôl bob cyfarfod, mae'r pwyllgor yn darparu adroddiad diweddaru i'r Bwrdd ynghyd â chopi o gofnodion drafft a phapurau perthnasol. Fel y gofynnir gan yr ACOP, mae'r pwyllgor hefyd yn cyflwyno Adroddiad Blynyddol manwl i'r Bwrdd. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o fusnes y pwyllgor ac yn cynnig barn y Pwyllgor Archwilio ar brosesau rheoli risg, rheoli mewnol a llywodraethu'r Coleg. Mae barn y Pwyllgor Archwilio yn seiliedig ar ei waith ei hun a gwaith archwilwyr mewnol ac allanol ar gyfer y flwyddyn, gyda'r Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol yn cael ei gyflwyno i'w adolygu gan y Bwrdd ar yr un pryd. Yn dilyn adolygiad gan y Bwrdd, mae'r adroddiad hwn yn llunio rhan o gyflwyniadau blynyddol y Gorfforaeth i Lywodraeth Cymru.

7.4 **Pwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd**

7.4.1 Mae'r Pwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd yn monitro ac yn goruchwylio perfformiad a datblygiadau allweddol ym mhob maes sy'n ymwneud ag ansawdd y ddarpariaeth addysgol. Mae'n monitro cynllunio a darparu'r cwricwlwm, yn ogystal â chynnydd ar weithredu'r Strategaethau Addysgu a Dysgu, Cwricwlwm a Sgiliau a Chyfadran. Mae'r pwyllgor hefyd yn adolygu diweddariadau cyson ar recriwtio, cadw, presenoldeb, asesu a chyrhaeddiad dysgwyr. Mae meysydd goruchwylio eraill yn cynnwys ymwneud myfyrwyr, Diogelu ac Anghenion Dysgu Ychwanegol.

7.4.2 Yn ystod 2022/23, derbyniodd y pwyllgor friffiau datblygu ar ddatblygiad staff addysgu, y defnydd o Amgylchedd Dysgu Rhithiol CANVAS, addysgu sgiliau'r iaith Gymraeg a darpariaeth Dysgu Cymunedol i Oedolion y coleg.

7.4.3 Ymhlith aelodau'r pwyllgor mae deg Llywodraethwr, yn cynnwys tri Myfyriwr Myfyrwyr a'r Llywodraethwr Staff Addysgu.

7.4.4 Mae aelodau allweddol yr Uwch Dîm Arwain hefyd yn mynychu'r cyfarfodydd:

- Is-Bennaeth (Cwricwlwm ac Ansawdd)
- Cyfarwyddwyr Cyfadrannau (x3)
- Cyfarwyddwr Ymgysylltiad Allanol
- Cyfarwyddwr Ansawdd a Phrofiad Dysgwyr
- Cyfarwyddwr Cwricwlwm a Gwasanaethau Gwybodaeth

7.4.5 Yn 2022/23, cyfarfu'r Pwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd bedair gwaith ar:

25 Hydref 2022
17 Ionawr 2023
19 Ebrill 2023
13 Mehefin 2023

Roedd cworwm ym mhob cyfarfod o'r pwyllgor fodd bynnag cyfeiriwyd cymeradwyo un polisi i'r Bwrdd oherwydd gwrthdaro buddiannau oedd yn effeithio'r cworwm.

### 7.5 Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau

7.5.1 Mae'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau'n cynghori'r Bwrdd ac yn monitro perfformiad ar faterion yn ymwneud â rheoli cyllid (yn cynnwys perfformiad a nodi cyllideb), adnoddau dynol, TGCh ac ystadau. Mae'r pwyllgor yn monitro cynnydd wrth weithredu Cynlluniau Strategol ym mhob un o'r meysydd hyn yn ogystal â phrosiectau cyfalaf mawr.

7.5.2 Ymhlith yr aelodau mae saith Llywodraethwr, yn cynnwys y Staff Cefnogi Busnes Busnes. Mae aelodau allweddol yr Uwch Dîm Arwain hefyd yn mynychu cyfarfodydd:

- Is-Bennaeth (Adnoddau a Chynllunio)
- Cyfarwyddwr Ystadau
- Cyfarwyddwr Ymgysylltiad Allanol
- Cyfarwyddwr Cyllid
- Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol
- Cyfarwyddwr TGCh

7.5.3 Yn 2022/23, cyfarfu'r pwyllgor bedair gwaith.

22 Tachwedd 2022
28 Chwefror 2023
25 Ebrill 2023
20 Mehefin 2023

Roedd cworwm ym mhob cyfarfod.

### 7.6 Pwyllgor Aelodaeth a Llywodraethu

7.6.1 Mae'r Pwyllgor Aelodaeth a Llywodraethu yn cynghori'r Bwrdd ar faterion yn ymwneud ag aelodaeth y Gorfforaeth yn cynnwys recriwtio, rheoli perfformiad, datblygiad Llywodraethwyr a chynllunio dilyniant. Mae'r pwyllgor hefyd yn cynghori’r Bwrdd ar ei gyfansoddiad a materion llywodraethu ehangach yn cynnwys goblygiadau newid mewn deddfwriaeth ac ymgynghoriadau cenedlaethol ar lywodraethu AB. Mae hyn yn cynnwys monitro cynnydd mewn perthynas â gweithredu'r Comisiwn ar Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CTER) newydd.

7.6.2 Er bod penodiad i'r Gorfforaeth yn gyfrifoldeb y Bwrdd yn gyffredinol, mae'r Pwyllgor Chwilio a Llywodraethu yn goruchwylio'r broses recriwtio. Mae'n rhaid i bob penderfyniad i benodi aelod newydd gael ei wneud yn unol â chyngor gan y pwyllgor.

7.6.3 Mae'r pwyllgor yn cynnwys pum Llywodraethwr yn cynnwys y Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Gorfforaeth a'r Pennaeth/Prif Weithredwr. Ar adegau, gwahoddir Llywodraethwr Myfyrwyr i gymryd rhan pan mae'r pwyllgor yn cwrdd ag ymgeiswyr sydd i'w penodi fel llywodraethwyr Annibynnol.

7.6.4 Yn 2022/23, cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio bum gwaith ar:

27 Hydref 2022
8 Tachwedd 2022
31 Ionawr 2023
20 Mawrth 2023
6 Mehefin 2023

Roedd cworwm ym mhob cyfarfod.

## 7.7 Pwyllgor Cydnabyddiaeth

7.7.1 Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn cael ei Gadeirio gan Mr Langshaw fel Cadeirydd y Llywodraethwyr a cyn cynnwys yr Is-gadeirydd a dau Lywodraethwr Annibynnol arall. Mae'n cyfarfod i ystyried perfformiad, telerau ac amodau a thâl y pedwar Deiliad Swyddi Uwch:

Pennaeth/Prif Weithredwr
2 Is-bennaeth
Swyddog Llywodraethu

7.7.2 Yn 2022/23, cyfarfu'r pwyllgor ddwywaith. Yn dilyn y cyfarfod cyntaf, gwnaed argymhelliad i'r Bwrdd mewn perthynas â chyflog y Swyddog Llywodraethu. Gwnaed hyn wedi adolygiad manwl o rôl y Swyddog Llywodraethu gyda chymorth gan y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol. Cymeradwywyd yr argymhelliad hwn gan y Bwrdd yn y cyfarfod ym mis Rhagfyr 2022. Ataliwyd yr ystyriaethau eraill tan y cytunir yn derfynol ar Gydnabyddiaeth Tâl Blynyddol Staff.

7.7.3 Wrth ystyried tâl Deiliaid Swyddi Uwch, mae'r pwyllgor yn ystyried nifer o ffactorau yn cynnwys perfformiad, data meincnodi priodol ac unrhyw gydnabyddiaeth tâl ddiweddar a gafwyd gan staff. Yn dilyn y casgliad ar drafodaethau cyflog cenedlaethol, bu i'r pwyllgor gwrdd eto ym mis Mehefin 2023 a gwnaed argymhelliad i roi cydnabyddiaeth i'r Deiliaid Swyddi Uwch ar yr un sail â'r hyn a roddwyd i'r holl staff. Cymeradwywyd yr argymhelliad hwn gan y Bwrdd yn ei gyfarfod ar 11 Gorffennaf 2023.

## 8. PRESENOLDEB

8.1 Yn ystod 2022/23, roedd presenoldeb yn y cyfarfodydd Bwrdd a phwyllgor fel a ganlyn:

| PRESENOLDEB CYFFREDINOL | 74% |
|---|---|
| BWRDD | 67% |
| PWYLLGOR ARCHWILIO | 96% |
| PWYLLGOR CWRICWLWM AC ANSAWDD | 64% |
| PWYLLGOR CYLLID AC ADNODDAU | 93% |
| PWYLLGOR AELODAETH A LLYWODRAETHU | 84% |
| SEMINARAU STRATEGAETH | 61% |

8.2 Caiff presenoldeb ei fonitro'n gyson gan y Pwyllgor Aelodaeth a Llywodraethu a gweithredir yn briodol lle mae presenoldeb unigolion yn destun pryder. Rhannwyd data presenoldeb gyda'r holl Lywodraethwyr yn y cyfarfod Bwrdd ym mis Gorffennaf 2023. Atgoffwyd Llywodraethwyr o

bwysigrwydd cynnal presenoldeb da i gynorthwyo eu datblygiad a dealltwriaeth bersonol, ac i sicrhau bod y Bwrdd yn gallu defnyddio ystod lawn o sgiliau ac arbenigedd sydd ar gael.

## 9. DATBLYGIADAU ALLWEDDOL

Mae cynnydd rhai prosiectau cyfalaf mawr wedi parhau i brofi oedi. Fodd bynnag, mae gwaith wedi dechrau ar y Ganolfan Peirianneg Uchel ei Werth (Yr HiVE) yng Nglyn Ebwy. Roedd Y Bwrdd yn falch o gymeradwyo defnyddio cronfeydd a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i hwyluso'r gwaith allgymorth peirianneg gydag ysgolion lleol.




Fel y nodwyd eisoes, dan arweiniad y Bwrdd, mae Dangosfwrdd monitro KPI Strategol newydd wedi ei ddatblygu, ynghyd â Fframwaith Rheoli Perfformiad. Bydd y dogfennau hyn yn cynorthwyo gwelliant parhaus mewn llywodraethu a goruchwylio.

I gydnabod costau byw a chwyddiant mewn ynni yn ystod y llynedd, mae'r coleg wedi ymgymryd â phrosiect i nodi arbedion costau posibl a mesuriadau effeithlonrwydd. Roedd y gwaith hwn yn gysylltiedig â'r ymgysylltiad â thargedau lleihau llwyth gwaith cenedlaethol. Darparwyd diweddariadau cyson ar yr arbedion amser a chostau a nodwyd  Croesawodd y Bwrdd Gynllun Gweithredu Sero Net y coleg hefyd a bydd cynnydd yn erbyn hwn yn y dyfodol yn cael ei adrodd drwy'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau.

Roedd y Bwrdd yn falch o nodi llwyddiannau sylweddol y coleg mewn cystadlaethau Worldskills drwy'r flwyddyn.

## 10. SWYDDOG LLYWODRAETHU

10.1 Swyddog Llywodraethu Coleg Gwent yn ystod 2022/23 oedd Mrs Marie Carter sy'n meddu ar Dystysgrif Uwch y Sefydliad Llywodraethu Siartredig mewn Llywodraethu Corfforaethol. Mynychodd Mrs Carter bob cyfarfod a gynhaliwyd gan y Bwrdd a'i bwyllgorau yn ystod 2022/23, ac eithrio'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth.


10.2 Yn ystod y flwyddyn bu i'r Swyddog Llywodraethu ymgymryd â chyfleoedd datblygu ynghylch:

- Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
- Amrywiaeth o fewn y bwrdd
- Seiberddiogelwch
- Rhyddid Gwybodaeth
- Cynllun Strategol y Coleg

Mynychodd gyfarfodydd Rhwydwaith Llywodraethu AB Cymru hefyd. Mae'r cyfarfodydd hyn yn rhoi cyfle i rannu arfer gorau a thrafod datblygiadau allweddol yn y sector gyda gweithwyr proffesiynol llywodraethu AB eraill.

## 11. DATGANIAD SICRWYDD

Cyn belled ag y gall fod yn rhesymol ymwybodol, mae Swyddog Llywodraethu Coleg Gwent yn fodlon bod Corfforaeth Coleg Gwent, yn y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2023, wedi cyflawni ei gyfrifoldebau statudol a chynhaliwyd holl fusnes y Bwrdd a'i bwyllgorau yn unol â deddfwriaeth berthnasol ac Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu Coleg Gwent. Mae hi hefyd o'r farn bod gweithgareddau'r Gorfforaeth yn adlewyrchu'r disgwyliadau arfer gorau fel y'u nodwyd yn y Cod Llywodraethu Da ar gyfer Colegau yng Nghymru.



**Marie Carter**
**Swyddog Llywodraethu Dyddiad:**

Mae Bwrdd Corfforaethol Coleg Gwent wedi adolygu'r adroddiad hwn a chyn belled ag y gall fod yn rhesymol ymwybodol, mae'n fodlon ei fod yn gofnod cywir a theg o fusnes y Gorfforaeth yn y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2023.



**Mark Langshaw MBE**
**Cadeirydd Llywodraethwyr Dyddiad:**